| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 01/03/21 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 14/03/23 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.01 |

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | 01443 863086<br>DiogeluData@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Ceisiadau am wasanaethau, cwynion neu ganmoliaeth am wasanaethau ac ymholiadau cyffredinol. |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu pan rydych chi'n cysylltu â ni (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) gyda chais am wasanaeth, cwyn neu ganmoliaeth am wasanaeth ac ymholiadau cyffredinol. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Pan fyddwch yn cysylltu â ni i wneud cais am wasanaeth, i wneud cwyn neu i'n canmol am y gwasanaethau rydym yn eu darparu, neu i wneud ymholiad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu (gan gynnwys eich data personol) at ddibenion delio â'r rheswm y gwnaethoch gysylltu â'r Cyngor, a all gynnwys;

- trosglwyddo manylion y rheswm y gwnaethoch gysylltu â'r Cyngor i'r maes (meysydd) gwasanaeth cywir ar gyfer gweithredu
- ymchwilio i unrhyw honiadau a wneir, os yw'n berthnasol, a
- rhoi ymateb i chi, os yw'n berthnasol.

Mae gan lawer o'r gwasanaethau a ddarperir gennym eu Hysbysiadau Preifatrwydd eu hunain, sy'n darparu rhagor o fanylion ar sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio. Mae'r Hysbysiadau Preifatrwydd hyn ar gael yma:

www.caerffili.gov.uk/HysbysiadauPreifatrwydd

Os ydych chi'n gwneud cais am wybodaeth wedi'i chofnodi sydd gennym ni, yna bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd canlynol yn darparu rhagor o fanylion am y prosesau hyn:

https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/FOI-privacy-notice-cy.aspx

Gan ein bod yn awdurdod cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu'r arian cyhoeddus yr ydym yn ei weinyddu. Gellir defnyddio unrhyw wybodaeth a roddwch at y diben hwn a gellir ei rhannu â sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am ddiogelu arian cyhoeddus.

Os credir y gallai plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed fod mewn perygl, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymchwilio a dilynir Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gall hyn gynnwys sawl asiantaeth fel yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd ac addysg. Hefyd, os ydych chi'n weithiwr proffesiynol / gwirfoddolwr sy'n destun honiadau o gam-drin / esgeulustod, gallai hyn gynnwys eich cyflogwr.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1(e) processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau.

Sylwch fod yr Amod a nodir isod yn amod o Erthygl 9 ac Erthygl 10 ar gyfer y gwaith prosesu (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw).

6 (1) This condition is met if the processing—
- (a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and
- (b) is necessary for reasons of substantial public interest.

(2) Those purposes are—
- (a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;
- (b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department.

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth

### Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

### Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd y maes (meysydd) gwasanaeth sy'n berthnasol i'r rheswm y gwnaethoch gysylltu â'r Cyngor e.e. Y maes gwasanaeth sy'n darparu'r gwasanaeth y mae eich rheswm dros gysylltu â'r Cyngor yn cyfeirio ato.

Efallai y bydd angen cymorth i ddelio â'ch rheswm o faes gwasanaeth ychwanegol e.e. Gwasanaethau Cyfreithiol, Yswiriant ac ati, yn dibynnu ar natur eich rheswm dros gysylltu.

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Efallai y bydd cwynion yn cael eu rhannu ag uwch reolwyr ac aelodau etholedig priodol y Cyngor er mwyn dysgu o gwynion.

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Os ydych yn gwneud cais am wasanaeth a ddarperir ar y cyd â sefydliad arall, efallai y bydd angen i ni rannu eich cais am wasanaeth (gan gynnwys eich hunaniaeth a'ch manylion cyswllt lle bo hynny'n berthnasol) gyda nhw er mwyn darparu'r gwasanaeth y gofynnir amdano.

Os gwnewch gŵyn am wasanaeth a ddarperir gan sefydliad arall ar ein rhan neu a ddarperir ar y cyd â sefydliad arall, er mwyn ymchwilio i'ch cwyn, efallai y bydd angen i ni rannu manylion eich cwyn (gan gynnwys eich hunaniaeth lle bo hynny'n berthnasol) gyda nhw.

Os ydych wedi cwyno i eraill, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, am y gwasanaethau a ddarperir gennym, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth amdanoch chi (gan gynnwys y gwasanaethau rydych chi wedi'u derbyn, cwynion rydych chi wedi'u gwneud a'r ymchwiliadau/canlyniadau sy'n deillio o hynny) gyda nhw.

### Manylion am brosesyddion data

Mae rhai o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu wedi'u contractio i sefydliadau eraill er mwyn iddyn nhw ddarparu'r gwasanaeth ar ein rhan. Pan fo hyn yn berthnasol, bydd gennym gontract ar waith gyda'r sefydliad hwnnw a fydd yn cyfyngu ac yn diogelu'r defnydd o'ch data personol.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Pa mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau a bydd yn amrywio yn dibynnu ar natur eich rheswm dros gysylltu.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi’r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Pan fyddwch yn cysylltu â ni i wneud cais am wasanaeth, i wneud cwyn neu i'n canmol am y gwasanaethau rydym yn eu darparu, neu i wneud ymholiad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu (gan gynnwys eich data personol) at ddibenion delio â'r rheswm y gwnaethoch gysylltu â'r Cyngor. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth yn dasg gyhoeddus.

Er mwyn darparu'r gwasanaeth y gofynnir amdano neu ddelio â'ch ymholiad neu gŵyn, efallai y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth â sefydliadau eraill.  Mae rhai o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu wedi'u contractio i sefydliadau eraill er mwyn iddyn nhw ddarparu'r gwasanaeth ar ein rhan. Bydd pa mor hir rydym yn cadw eich gwybodaeth yn amrywio yn dibynnu ar natur eich rheswm dros gysylltu.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}